

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494
(STRYD Y RHOS, RHUTHUN, SIR DDINBYCH)
(GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A
CHERDDWYR DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A494, neu gerllaw iddi, yn Rhuthun, Sir Ddinbych.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith), a phob beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o Gefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw a elwir yn Stryd y Rhos sy'n dechrau o'i chyffordd â'r ffordd ymyl a elwir yn Haulfryn i'r man lle y mae Cefnffordd yr A494 yn cael ei galw'n Wernfechan.


Y llwybr arall ar gyfer pob cerbyd sy'n teithio tua'r dwyrain fydd mynd ar Ffordd yr Orsaf/yr A525 i Ben-y-stryt; yr A5104 i Bontblyddyn; yr A541 i'r A494 Ffordd Osgoi'r Wyddgrug a'r A494 i Ruthin. I'r gwrthwyneb ar gyfer pob cerbyd sy'n teithio tua'r gorllewin. Bydd cerddwyr a beicwyr yn cael eu dargyfeirio ar 'Haulfryn' rhwng Stryd y Rhos a Wernfechan ac i'r gwrthwyneb. Gofynnir i feicwyr ddod oddi ar eu beiciau ar y llwybr dargyfeiriol.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym am 07:00 o'r gloch ar 12 Ionawr 2025 ac yn weithredol hyd 22:00 o'r gloch ar yr un diwrnod neu pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A494 TRUNK ROAD (RHOS STREET,
RUTHIN, DENBIGHSHIRE) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS &
PEDESTRIANS) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A494 trunk road in Ruthin, Denbighshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A494 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road known as Rhos Street that commences from its junction with the side road known as Haulfryn to where the A494 Trunk Road becomes known as Wernfechan.


The alternative route for all vehicles travelling east will be via Station Road/A525 to Pen-y-stryt; A5104 to Pontblyddyn; A541 to A494 Mold Bypass and the A494 to Ruthin. Vice versa for all vehicles travelling west. Pedestrians and cyclists will be diverted via 'Haulfryn' between Rhos Street and Wernfechan and vice versa. Cyclists will be asked to dismount on the diversionary route.

The temporary prohibitions are expected to come into force at 07:00 hours on 12 January 2025 and operate until 22:00 hours on the same day or when the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

